# Office for Nuclear Regulation (ONR)
# Site Report for
# Trawsfynydd

**Report for period 1st April – 30th September 2019**

**Foreword**

This report is issued as part of ONR's commitment to make information about inspection and regulatory activities relating to the above site available to the public. Reports are distributed to members for the Trawsfynydd Site Stakeholder Group (SSG) and are also available on the ONR website (http://www.onr.org.uk/llc/).

Site inspectors from ONR usually attend the Trawsfynydd SSG meetings where these reports are presented and will respond to any questions raised there. Any person wishing to enquire about matters covered by this report should contact ONR.

# TABLE OF CONTENTS

1 INSPECTIONS ..... 3
2 ROUTINE MATTERS ..... 3
3 NON-ROUTINE MATTERS ..... 4
4 REGULATORY ACTIVITY ..... 4
5 NEWS FROM ONR ..... 4
6 CONTACTS ..... 6

# 1 INSPECTIONS

## 1.1 Dates of inspection

The ONR nominated site inspector attended the site on the following dates:

- 7 -9 May 2019.
- 2 – 4 July 2019.
- 25 – 26 September 2019.

# 2 ROUTINE MATTERS

## 2.1 Inspections

Inspections are undertaken as part of the process for monitoring compliance with:

- the conditions attached by ONR to the nuclear site licence granted under the Nuclear Installations Act 1965 (NIA65) (as amended);
- the Energy Act 2013;
- the Health and Safety at Work Act 1974 (HSWA74); and
- regulations made under HSWA74, for example the Ionising Radiations Regulations 2017 (IRR17) and the Management of Health and Safety at Work Regulations 1999 (MHSWR99).

The inspections entail monitoring licensee's actions on the site in relation to incidents, operations, maintenance, projects, modifications, safety case changes and any other matters that may affect safety. The licensee is required to make and implement adequate arrangements under the conditions attached to the licence in order to ensure legal compliance. Inspections seek to judge both the adequacy of these arrangements and their implementation.

In this period, ONR carried out the following inspections at Trawsfynydd:

- LC 12 Duly authorised and other SQEP
- LC 24 Operating instructions
- LC 28 Examination, inspection, maintenance and testing
- LC 32 Accumulation of radioactive waste

In general, ONR judged the arrangements made and implemented by the site in response to safety requirements to be adequate in the areas inspected. However, where improvements were considered necessary, the licensee made satisfactory commitments to address the issues, and the site inspector will monitor progress during future visits. Where necessary, ONR will take formal regulatory enforcement action to ensure that appropriate remedial measures are implemented to reasonably practicable timescales.

## 2.2 Other work

ONR's site inspector attended the Magnox Limited Welsh region emergency planning consultative committee meeting that provides a forum for those agencies with responsibilities under Wylfa and Trawsfynydd's emergency plan.

ONR's site inspector held planned meetings with safety representatives, to support their function of representing employees and receiving information on matters affecting their health, safety and welfare at work.

ONR's decommissioning, fuel and waste (DFW) delivery lead superintending inspector, site safety inspector and site security inspector attended the Magnox Limited Welsh region annual review of safety, security and environment (ARoSSE) held at Trawsfynydd. The ARoSSE provides a set-piece opportunity for periodic senior level engagement between ONR and the licensee.

## 3 NON-ROUTINE MATTERS

Licensees are required to have arrangements to respond to non-routine matters and events. ONR inspectors judge the adequacy of the licensee's response, including actions taken to implement any necessary improvements.

There were no such matters or events of significance during this reporting period.

## 4 REGULATORY ACTIVITY

ONR may issue formal documents to ensure compliance with regulatory requirements. Under nuclear site Licence Conditions (LC - http://www.onr.org.uk/documents/licence-condition-handbook.pdf) ONR issues regulatory documents which either permit an activity or require some form of action to be taken. These are collectively termed 'Licence Instruments' (LIs). In addition, inspectors may issue Enforcement Notices to secure improvements to safety.

There were no LIs, or Enforcement Notices issued during this reporting period.

**Table 1**
**Licence Instruments and Enforcement Notices Issued by ONR during this period**

| Date | Type | Ref No | Description |
|---|---|---|---|
| n/a | none | | |

Reports detailing the above regulatory decisions can be found on the ONR website at http://www.onr.org.uk/pars/.

## 5 NEWS FROM ONR

### Enforcement Action

A summary of enforcement action is provided below. Further detail is available on our website.

- On 19 July we served Improvement Notices on the Atomic Weapons Establishment (AWE) relating to the way the company undertakes risk assessments for organisational change which may affect safety.
- Following a court hearing on 23 July 2019 at Plymouth Magistrates' Court, Devonport Royal Dockyard Ltd (DRDL) was fined £666,667 and ordered to pay costs of £27,611.82. It follows an incident in September 2018 involving a crane at the Devonport 9 Dock facility. During a lifting operation to disassemble a stack of test weights, the weights became detached and fell towards a worker, narrowly missing him. This was a conventional health and safety incident and there was no nuclear or radiological risk to workers or the public.
- On 20 August 2019, we provided EDF Energy Nuclear Generation Ltd with permission for Reactor 4 at Hunterston B to return to service for the next period of operation.

Permission is for up to 16.025 terawatt days, which is approximately four months of operation.

- Recognising the good progress made so far, on 16 September 2019 we agreed to extend two Improvement Notices issued to EDF Energy Nuclear Generation Ltd (EDF) from the original compliance date of 16 September 2019 to 16 December 2019. The notices were served in January 2019 following an incident at Heysham 1 power station. We have been closely monitoring the work to comply with both notices and will continue to do so to ensure full compliance.

## Regulatory Updates

- We have revised our Licencing Nuclear Installations guidance. The revised guidance replaces the 4th edition, published in January 2015.The key changes to the guidance have been made to reflect legal changes as a result of the introduction of new legislation and to include reference to updated processes and procedures.
- Together with the Health and Safety Executive (HSE) we have published a new Approved Code of Practice (ACOP) and guidance to assist dutyholder compliance with the new Radiation (Emergency Preparedness and Public Information) Regulations 2019 (REPPIR).

## Stakeholder Engagement

- On 18 September we held our Finance Industry Seminar, which brought together finance colleagues from licence holders to discuss how we plan and forecast our charges, as part of our drive to be open and transparent about how we charge for the regulatory services we provide.
- In the week commencing 23 September, we attended an OECD Nuclear Energy Agency Workshop on Stakeholder Involvement: Risk Communication, as part of a UK contingent which included other regulators, government bodies, supply chain representatives and attendees from nuclear interest and pressure groups. The workshop explored how best to communicate radiation risk and how to ensure stakeholder involvement and participation. Further details about this event can be found here: https://www.oecd-nea.org/civil/workshops/2019/stakeholder/
- In the week commencing 16 September we attended the 63rd International Atomic Energy Agency (IAEA) General Conference in Vienna. The annual General Conference is an opportunity for all IAEA Member States to jointly consider matters related to the IAEA's ongoing work, budget and priorities. This year, over 3000 participants attended, including delegates from 152 of the IAEA's 171 Member States.

## Corporate News

- The Department for Work and Pensions is looking to appoint two non-executive directors to ONR's Board. More details on the roles and how to apply can be found on the HM Government Public Appointments website.
- On 10 July we published our gender pay report for 2018/19. We are committed to improving diversity by promoting and maintaining an inclusive working environment and are pleased to report positive shifts in the gender pay gap indicators, where our mean gap of 27% has reduced by 8.2% since our second report in 2017/18.

All our latest news is available on our website www.onr.org.uk.

## 6 CONTACTS

Office for Nuclear Regulation
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Merseyside
L20 7HS

website: www.onr.org.uk
email: ONREnquiries@onr.gov.uk

This document is issued by the Office for Nuclear Regulation (ONR). For further information about ONR, or to report inconsistencies or inaccuracies in this publication, please visit http://www.onr.org.uk/feedback.htm.

© *Office for Nuclear Regulation, 2019*
If you wish to use this information visit www.onr.org.uk/copyright for details.
Published 10/19

*For published documents, the electronic copy on the ONR website remains the most current publicly available version and copying or printing renders this document uncontrolled.*

# Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)
# Adroddiad Safle ar gyfer
# Trawsfynydd

## Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1[af] Ebrill – 30[ain] Medi 2019

**Rhagair**

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoliadol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau i aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Safle (SSG) Trawsfynydd a hefyd maent ar gael ar wefan yr ONR (http://www.onr.org.uk/llc/).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynychu cyfarfodydd SSG Trawsfynydd lle cyflwynir yr adroddiadau hyn a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

# TABL CYNNWYS


1 AROLYGIADAU .................................................... **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
2 MATERION ARFEROL .......................................... **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
3 MATERION ANARFEROL .................................... **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO ........................ **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
5 NEWYDDION GAN YR ONR ................................ **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
6 CYSYLLTIADAU .................................................... **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**

# 1 AROLYGIADAU

## 1.1 Dyddiadau arolygu

Mynychodd arolygydd enwebedig yr ONR y safle ar y dyddiadau canlynol:

- 7 – 9 Mai 2019.
- 2 – 4 Gorffennaf 2019.
- 25 – 26 Medi 2019.

# 2 MATERION ARFEROL

## 2.1 Arolygiadau

Cynhelir arolygiadau fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2013;
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a'r
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 2017 (IRR17) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r arolygiadau yn golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i achosion diogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan yr amodau sydd wedi'u hatodi i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithrediad.

Yn ystod y cyfnod hwn, cyflawnodd yr ONR yr arolygiadau canlynol yn Nhrawsfynydd:

- LC 12 Personau Wedi Awdurdodi a Phersonau Eraill gyda Chymwysterau a Phrofiad Addas
- LC 24 Cyfarwyddiadau gweithredu
- LC 28 Archwilio, arolygu, cynnal a chadw a phrofi
- LC 32 Croniad o wastraff ymbelydrol

Yn gyffredinol, barnodd yr ONR fod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, pan ystyriwyd bod angen gwelliannau, gwnaeth y trwyddedai ymrwymiadau boddhaol i fynd i'r afael â'r materion, a bydd arolygydd y safle yn monitro cynnydd yn ystod ymweliadau yn y dyfodol. Lle bo angen, bydd yr ONR yn cymryd camau gorfodi rheoliadol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau adferol priodol o fewn terfynau amser sy'n rhesymol ymarferol.

## 2.2 Gwaith arall

Mynychodd arolygydd safle'r ONR gyfarfod pwyllgor ymgynghorol cynllunio argyfwng rhanbarth Cymru Magnox Cyfyngedig sy'n darparu fforwm i'r asiantaethau hynny sydd â chyfrifoldebau o dan gynllun argyfwng Wylfa a Thrawsfynydd.

Cynhaliodd arolygydd safle'r ONR gyfarfodydd a gynlluniwyd gyda chynrychiolwyr diogelwch, i gefnogi eu swyddogaeth o gynrychioli cyflogeion a derbyn gwybodaeth ar faterion yn effeithio ar eu hiechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

Mynychodd prif uwcharolygydd cyflawni datgomisiynu, tanwydd a gwastraff (DFW) yr ONR, arolygydd diogelwch y safle ac arolygydd diogelu'r safle adolygiad blynyddol o ddiogelwch a'r amgylchedd (ARoSSE) rhanbarth Cymru Magnox Cyfyngedig a gynhaliwyd yn Nhrawsfynydd. Mae'r ARoSSE yn darparu cyfle ffurfiol i ymgysylltu ar lefel uwch o bryd i'w gilydd rhwng ONR a'r trwyddedai.

## 3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anarferol. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Nid oedd unrhyw faterion neu ddigwyddiadau arwyddocaol o'r fath i'w hadrodd yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

## 4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

Gall yr ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan Amodau Trwydded (LC - http://www.onr.org.uk/documents/licence-condition-handbook.pdf) safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd. Gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'Offerynnau Trwydded' (OT). Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

Ni chyhoeddwyd unrhyw Offerynnau Trwydded na Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

**Tabl 1**
**Offerynnau Trwydded a Hysbysiadau Gorfodi a Gyhoeddwyd gan yr ONR yn ystod y cyfnod hwn**

| Dyddiad | Math | Cyfeirnod | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| n/a | dim | | |

Gellir dod o hyd i adroddiadau gyda manylion y penderfyniadau rheoliadol uchod ar wefan yr ONR yn http://www.onr.org.uk/pars/.

## 5 NEWYDDION GAN YR ONR

### Camau Gorfodi

Ceir crynodeb o'r camau gorfodi isod. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

- Ar 19 Gorffennaf gwnaethom gyflwyno Hysbysiadau Gwella ar y Sefydliad Arfau Atomig (AWE) yn ymwneud â'r ffordd y mae'r cwmni'n ymgymryd ag asesiadau risg ar gyfer newid sefydliadol a allai effeithio ar ddiogelwch.
- Yn dilyn gwrandawiad llys ar 23 Gorffennaf 2019 yn Llys yr Ynadon Plymouth, rhoddwyd dirwy o £666,667 i Devonport Royal Dockyard Cyf (DRDL) a'i orchymyn i dalu costau o £27,611.82. Mae'n dilyn digwyddiad ym mis Medi 2018 yn ymwneud â chraen yng nghyfleuster 9 Doc Devonport. Yn ystod gweithrediad codi i ddadosod pentwr o bwysau prawf, daeth y pwysau'n rhydd a chwympo tuag at weithiwr, gan ei fethu o drwch blewyn. Roedd hyn yn ddigwyddiad iechyd a diogelwch confensiynol ac nid oedd unrhyw risg niwclear neu radiolegol i weithwyr na'r cyhoedd.
- Ar 20 Awst 2019, gwnaethom roi caniatâd i EDF Energy Nuclear Generation Cyf i Adweithydd 4 yn Hunterston B ddychwelyd i wasanaeth ar gyfer y cyfnod gweithredu

nesaf. Mae'r caniatâd am hyd at 16.025 diwrnod terawat, sydd oddeutu pedwar mis o weithredu.

- Gan gydnabod y cynnydd da a wnaed hyd yma, ar 16 Medi 2019 gwnaethom gytuno i ymestyn dau Hysbysiad Gwella i EDF Energy Nuclear Generation Cyf (EDF) o'r dyddiad cydymffurfio gwreiddiol o 16 Medi 2019 i 16 Rhagfyr 2019. Cyflwynwyd yr hysbysiadau yn Ionawr 2019 yn dilyn digwyddiad yng ngorsaf bŵer Heysham 1. Rydym wedi bod yn monitro'r gwaith i gydymffurfio â'r ddau hysbysiad yn agos a byddwn yn parhau i wneud hynny i sicrhau cydymffurfiad llwyr.

## Diweddariadau Rheoleiddiol

- Rydym wedi diwygio ein canllawiau Trwyddedu Gosodiadau Niwclear. Mae'r canllawiau diwygiedig yn disodli'r 4ydd argraffiad, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2015. Gwnaed y newidiadau allweddol i'r canllawiau er mwyn adlewyrchu newidiadau cyfreithiol o ganlyniad i gyflwyno deddfwriaeth newydd ac i gynnwys cyfeiriad at brosesau a gweithdrefnau sydd wedi'u diweddaru.
- Ynghyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) rydym wedi cyhoeddi Cod Ymarfer Cymeradwy (ACOP) a chanllawiau newydd i helpu i ddeiliaid dyletswyddau gydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2019 (REPPIR) newydd.

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

- Ar 18 Medi gwnaethom gynnal ein Seminar Diwydiant Cyllid, a ddaeth â chydweithwyr cyllid o ddeiliaid trwydded ynghyd i drafod sut rydym yn cynllunio ac yn rhagweld ein taliadau, fel rhan o'n hymgyrch i fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch sut rydym yn codi ffioedd ar gyfer y gwasanaethau rheoleiddio a ddarparwn.
- Yn ystod yr wythnos a ddechreuodd ar 23 Medi, buom mewn Gweithdy'r Asiantaeth Ynni Niwclear OECD ar Gynnwys Rhanddeiliaid: Cyfathrebu Risg, fel rhan o amod y DU a oedd yn cynnwys rheoleiddwyr eraill, cyrff y llywodraeth, cynrychiolwyr y gadwyn gyflenwi a mynychwyr o grwpiau buddiant a phwysau niwclear. Bu'r gweithdy'n archwilio'r ffordd orau o gyfathrebu risg ymbelydredd a sut i sicrhau cynnwys a chyfranogiad rhanddeiliaid. Gellir gweld mwy o fanylion am y digwyddiad hwn yma: https://www.oecd-nea.org/civil/workshops/2019/stakeholder/
- Yn ystod yr wythnos a ddechreuodd ar 16 Medi, buom yn 63ain Cynhadledd Gyffredinol yr Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol (IAEA) yn Vienna. Mae'r Gynhadledd Gyffredinol flynyddol yn gyfle i holl Aelod-wladwriaethau'r IAEA ystyried materion ar y cyd yn ymwneud â gwaith, cyllideb a blaenoriaethau parhaus yr IAEA. Eleni, mynychodd dros 3000 o gyfranogwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o 152 o 171 o Aelod-wladwriaethau'r IAEA.

## Newyddion Corfforaethol

- Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bwriadu penodi dau gyfarwyddwr anweithredol i Fwrdd yr ONR. Gellir gweld mwy o fanylion am y rolau a sut i ymgeisio ar wefan Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth EM.
- Ar 10 Gorffennaf, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar gyflog y rhywiau ar gyfer 2018/19. Rydym wedi ymrwymo i wella amrywiaeth drwy hybu a chynnal amgylchedd gweithio cynhwysol ac rydym yn falch o adrodd am newidiadau cadarnhaol yn y dangosyddion bwlch cyflog rhwng y rhywiau, lle mae ein bwlch cymedrig o 27% wedi gostwng 8.2% ers ein hail adroddiad yn 2017/18.

Mae ein holl newyddion diweddaraf ar gael ar ein gwefan www.onr.org.uk

## CYSYLLTIADAU

Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Merseyside
L20 7HS

gwefan: www.onr.org.uk
e-bost: ONREnquiries@onr.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am yr ONR, neu i adrodd am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i http://www.onr.org.uk/feedback.htm.

*© Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, 2019*
Os ydych yn dymuno defnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright am fanylion.
Cyhoeddwyd 10/19

*Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei chopïo neu ei hargraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.*